

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod 12 Mai 2020 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Eifion Williams	
Casi Roberts	Nerys John	
Iwan Huws	Cynog Prys	
Iestyn Harris	Mei Gwilym	
Nerys John	Llŷr Evans	
Lliwedd Griffith-Williams	Dafydd Huws	
Elliw Williams	Emyr Gareth	
	Wynne Barton - Swyddog Ariannol	
1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
	<p>Agorwyd yn ffurfiol y cyfarfod misol wedi'r cyfarfod blynyddol. Dywedodd y Cadeirydd Iwan Huws bod ceisiadau ar gyfer dwy sedd wag ar y Cyngor wedi eu derbyn. Mae'r ddau gais yn gymwys i fod yn gynghorwyr felly fe cyfetholwyd y ddau; sef Dafydd Huws a Emyr Gareth. Fe longyfarchwyd y ddau ynghyd a'u croesawu fel alodau newydd o'r Cyngor Cymuned.</p>	
1.1	<p>Cynllun Cyfaill y Felinheli – mae canllawiau diweddaraf y cynllun wedu eu diweddarau a byddant yn cael eu hanfon ymlaen. Daeth mater i lawr lle roedd cais wedi dod oddi wrth berson ond wedi cysylltu a'r person hwnnw gwelwyd nad oedd y cais wedi dod oddi wrtho. Mae'r sefyllfa wedi eu ddatrys ond credir bod angen bod yn wylidwrus. Credir bod systemau yn eu lle i osgoi hyn yn y syfodol. Bydd Y Cynghorydd Dan Williams a'r Cynghorydd Nerys John yn ystyried materion o amgylch POVA.</p>	DW/NJ
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
	Nid oedd y Cynghorydd Sir yn bresennol.	
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	Derbyniwyd mantolen yr Adroddiad Blynyddol 2019 – 2020 a chofnodwyd eu bod wedi eu cadw yn unol a'r rheolau ariannol drwy ddatganiad gan y Swyddog Ariannol. Cymeradwywyd y datganiad gan y Cyngor. Bydd trefniadau yn cael eu gwneud ar gyfer llofnodi y datganiad.	
4.2	Derbyniwyd adroddiadu ariannol yn cymharu gwariant a'r cyllidebau drafft.	
4.3	Bydd adroddiad ar gyfer gwariant mis Ebrill yn cael ei gyflwyno mis nesaf.	
4.4	Bydd cydnabyddiaeth i aelodau yn cael ei ystyried y mis nesaf.	
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion Ebrill 2020.	
6.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
	C20/0328/20/tc – Fferm Parciau, Caernarfon, LL55 1TS – cais am dystysgrif cyfreithloni defnydd presennol ar gyfer	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	defnyddio'r adeilad at ddiben annedd breswyl (defnydd dosbarth C3) – DIM GWRTHWYNEBIAD	
6.2	Llythyr gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â Gwasanaethau Cynllunio - Gwybodaeth yn Unig.	
7.0	PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU	
7.1	Cafwyd wybodaeth bod Cynllun Ffordd Glan y Môr yn cychwyn yn ol ar y 18fed o Fai 2020 a bydd gorchymun cau y ffordd ger Garddfon yn cychwyn ar y 25ain o Fai 2020.	
7.2	Dywedodd y CYnghorydd Nerys John bod Mainc uwch ben y steps angen gwaith CYnnal. Y Cynghorydd Daniel Williams am gysylltu a Meical Huws ynglŷn a'r gwaith a hefyd cyfeirwyd nad oed anfoneb wedi ei dderbyn ar gyfer y gwaith diweddar.	
8.0	LLWYBRAU A LON LAS	
8.1	Llwybr Afon Heulyn, dywedwyd bod tyfiant coed yn amharau ar lechi sydd ar ben y wal ac o ganlyniad yn pery peryg i gerddwyr. Y Clerc anfon at Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd.	CLERC
8.2	Cafwyd wybod bod coeden wedidod lawr ar y Lon Las ond bellach wedi ei symud.	
9.0	MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA	
	Dim i adrodd	
10.0	PROSIECTAU	
	Ystyriwyd y mater o wneud cais am gyfraniad at brosiect Lan y Môr gan OBR. Bydd y Cynghorydd Eiliw Williams yn cysylltu a'r Contractwyr.	
11.0	NEUADD GOFFA A CHLOC	
11.1	Y Neuadd ar gau. Cafwyd wybodaeth bod y sgaffald ar leoliad oherwydd bod y cwmni ddim yn gwithio ar hyn o bryd a nid yw'r sgaffald yn costio i'r Cyngor. Ni does mwy o lechi wedi dod i lawr. Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod yn archwilio'r neuadd pob bythefnos gan gynnwys archwilio'r difib. Mae meters trydan a nwy wedi ei cofnodi, dim newid ynddynt sydd yn sicrhau nad oedd defnydd yn cael ei wneud ohonynt. Os bydd angen mynedfa i'r neuadd yna bydd angen cysylltu a'r Cynghorydd Dan Williams.	DW
12.0	GWEFAN	
	Gwaith yn parhau i ddiweddarau'r wefan.	CLERC
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 20:40	
Llofnod:		Dyddiad: